Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Pa bryd y cynhelir yr arolygiad nesaf o'r ysgol?

Arweiniad ar arolygu ysgolion newydd, ysgolion sy'n cydweithio ac ysgolion ffederal, ac ar ganslo, oedi ac ail-drefnu arolygiadau ysgol

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Gold

Rheoli fersiwn

Fersiwn y ddogfen	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Newidiadau a wnaed
1.0	Mererid Wyn Williams	Hydref 2011	Cyfuno dwy ddogfen
2.0	Robert Gairey	Mawrth 2012	Ychwanegu adran ar weithgarwch dilynol
3.0	Robert Gairey	Ebrill 2013	Diweddariadau i wybodaeth fonitro Estyn

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
neu drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn 2009, mae asesiad effaith cydraddoldeb llawn wedi'i gynnal ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw bobl ar sail anabledd, rhyw neu hil.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Deddfwriaeth **1**

Hysbysu Estyn am ysgolion yn cau a sefydlu ysgolion newydd neu ffederasiynau **1**

Trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal **2**

Ysgolion newydd 2
Ysgolion sy'n cydweithio 3
Ysgolion ffederal 3
Amgylchiadau cymhleth neu annisgwyl 4
Arolygiadau a gynhelir o dan gontract 4

Canslo, oedi ac ail-drefnu arolygiadau ysgol **5**

Canslo 5
Oedi neu ail-drefnu 6
Arolygiadau a gynhelir o dan gontract 6

Trefniadau dilynol ar gyfer cau ysgolion **7**

Ysgolion sy'n cael eu monitro gan yr awdurdod lleol 7
Ysgolion y mae angen iddynt gael ymweliadau gan Estyn 7
Ysgolion sy'n cael eu monitro gan Estyn 7
Ysgolion yn y categori gwelliant sylweddol 8
Ysgolion yn y categori mesurau arbennig 8
Sefyllfaoedd eraill lle mae angen i ysgolion gael eu monitro ymhellach 8

Cyfeiriadau

Cyflwyniad

1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu trefniadau Estyn ar gyfer arolygu ysgolion mewn sefyllfaoedd cyffredin, er enghraifft pan gaiff ysgolion newydd eu sefydlu, pan fydd ysgolion yn cydweithio, neu pan fydd ysgolion yn gweithio mewn ffederasiynau. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r dull sydd gan Estyn ar gyfer canslo, oedi ac ail-drefnu arolygiadau ysgol o dan adran 28 Deddf Addysg 2005.

Deddfwriaeth

2 Mae diwygiadau i'r Rheoliadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2010 yn gofyn bod Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn sicrhau bod pob ysgol y mae adran 28 Deddf 2005 yn berthnasol iddi, yn weithredol o Fedi 2010, yn cael ei harolygu:

- yn achos ysgol nad yw wedi cael ei harolygu yn y gorffennol, o fewn chwe blynedd o'r dyddiad pan dderbyniwyd disgyblion i'r ysgol am y tro cyntaf; ac
- ym mhob achos arall, o fewn chwe blynedd o'r adeg pan gafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

PAEM sydd â'r uchelfraint hefyd o dan Ddeddf Addysg 2005 i drefnu arolygiad o unrhyw sefydliad addysgol yng Nghymru.

3 Bydd Mesur Addysg (Cymru) 2010 ('y Mesur') yn rhoi pwerau a dyletswyddau ar waith i wneud cydweithio rhwng sefydliadau yn haws, i wella llywodraethu ysgolion a symleiddio cynllunio lleoedd ysgol. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys cynigion i roi pŵer i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiynau o ysgolion. Mae'r Mesur yn debygol o gynyddu nifer a chymhlethdod y trefniadau cydweithio a ffedereiddio rhwng ysgolion.

Hysbysu Estyn am gau ysgolion a sefydlu ysgolion newydd neu ffederasiynau

4 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 29 yn gofyn i Lywodraeth Cymru hysbysu Estyn ynghylch cynigion i derfynu neu sefydlu ysgolion newydd yng Nghymru. Yn ychwanegol, dylai awdurdodau lleol hysbysu Estyn yn rheolaidd am y canlynol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

- Unrhyw gynigion i ysgolion weithio mewn ffederasiwn;
- Y dyddiad y daw'r cynigion i rym;
- Enwau ysgolion newydd a'u rhifau cyfeirnod;
- Manylion am y math o ffederasiwn, gan gynnwys p'un a yw trefniadau yn cynnwys gweithio ar draws cyfnodau, ffederasiwn, neu weithio gydag ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill;
- Y math o fodel arweinyddiaeth ym mhob ffederasiwn; ac

- Unrhyw newidiadau mewn ffederasiwn, er enghraifft os yw ysgol newydd yn ymuno neu'n gadael.

Trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal

5 Mae Estyn yn arolygu ysgolion yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Bydd Estyn yn ystyried ac yn penderfynu pa drefniadau sy'n briodol ar gyfer arolygu ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar, ysgolion sy'n cydweithio, ac ysgolion ffederal, pan fydd wedi cael ei hysbysu am ysgolion newydd gan Lywodraeth Cymru neu wybodaeth gan awdurdodau lleol neu ysgolion ynglŷn ag ysgolion yn cydweithio neu drwy ffedereiddio. Oni bai bod Estyn yn derbyn gwybodaeth o leiaf bedair wythnos cyn unrhyw arolygiad a ddisgwylir, bydd pob ysgol yn cael ei harolygu yn ôl yr arfer (o fewn chwe blynedd o'i harolygiad diwethaf).

6 Mae'r enghreifftiau isod yn disgrifio sefyllfaoedd cyffredin ac yn esbonio'r modd y bydd PAEM fel arfer yn dehongli ei phwerau arolygu yn yr amgylchiadau hynny. Bydd sefyllfaoedd mwy cymhleth sy'n codi yn cael eu hystyried fesul achos.

Ysgolion newydd

7 Bydd ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cael rhif cyfeirnod newydd Llywodraeth Cymru. Bydd Estyn bob amser yn arolygu ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar o fewn chwe blynedd o'r dyddiad y cafodd disgyblion eu derbyn i'r ysgol gyntaf.

8 Mae'r sefyllfaoedd canlynol yn dangos sut byddai PAEM fel arfer yn trefnu i ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar gael eu harolygu am y tro cyntaf, yn dibynnu ar y cyd-destun. Y bwriad yw arolygu'r ysgol newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol a phan fydd digon o ddata dibynadwy am berfformiad ar gael.

9 Yn aml, caiff ysgol newydd ei sefydlu:

- i fodloni angen newydd, lle nad oedd ysgol yn bodoli yn flaenorol;
- yn sgil ad-drefnu sawl ysgol lai sy'n bodoli eisoes yn un ysgol fawr; neu
- ganlyniad i uno ysgol iau â'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo.

10 Pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu i fodloni angen newydd (nid o ganlyniad i uno neu ad-drefnu ysgolion sy'n bodoli eisoes), bydd Estyn fel arfer yn arolygu'r ysgol newydd pan fydd o leiaf un set o ddata asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol neu ddata arholiadau ar gael. Mae hyn yn debygol o fod dair neu bedair blynedd ar ôl agor, oherwydd byddai'r ysgol newydd yn agor i ddisgyblion ar sail cofnod blwyddyn neu ddwy, a byddai'n cymryd amser i'r blynyddoedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol gael eu poblogi ac i ddata fod ar gael.

11 Pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu o ganlyniad i ad-drefnu sawl ysgol fach sy'n cau ac yn ailagor fel ysgol newydd, bydd Estyn fel arfer yn arolygu'r ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar pan fydd o leiaf ddwy set o ddata asesiadau ar ddiwedd cyfnodau

allweddol neu ddata arholiadau ar gael ar gyfer yr ysgol newydd. Mae hyn yn debygol o fod ddwy neu dair blynedd ar ôl agor. Y rheswm am hyn yw pan ddaw sawl ysgol yr un oedran at ei gilydd yn un ysgol, mae'n anodd i Estyn gyfuno data o'r ysgolion blaenorol mewn ffordd deg yn ystod yr arolygiad o'r ysgol newydd.

12 Pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu yn sgil cau ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo, ac wedyn ailagor fel un ysgol gynradd newydd 'wedi'i huno' ar gyfer pob oedran, bydd Estyn fel arfer yn arolygu'r ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar o fewn 12 i 18 mis o'i hagor. Yn ystod yr arolygiad, bydd Estyn yn defnyddio'r data perfformiad o'r ysgolion blaenorol, gan fod y data yn cyfeirio at yr un garfan o ddisgyblion ag yn yr ysgol newydd, ac mae hyn yn rhoi parhad ar gyfer dehongli'r data.

Ysgolion sy'n cydweithio

13 Mae'r trefniadau i gyrff llywodraethol ysgolion gydweithio'n agosach wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008; a Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008. Daeth y rheoliadau i rym ym Mawrth 2008. Mae'r rheoliadau yn galluogi cyrff llywodraethol ysgolion i ddatblygu trefniadau cydweithio, ac os ydynt yn dymuno, dirprwyo arfer eu swyddogaethau i un cydbwyllgor neu fwy. Mae pob ysgol yn cadw ei rhif cyfeirnod ysgol Llywodraeth Cymru.

14 Caiff y trefniadau hyn eu hadnabod weithiau fel 'cydweithio ymhlith cyrff llywodraethol' neu 'ffederasiynau meddal'.

15 Ar gyfer ysgolion sy'n gweithio o dan y trefniadau hyn, bydd Estyn yn arolygu pob ysgol ar wahân ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol. Ni fyddai amseriad cylchol pob arolygiad yn newid (byddai pob ysgol yn cael ei harolygu o fewn chwe blynedd o'i harolygiad diwethaf). Adroddir am effeithiolrwydd y cydweithio o dan ddangosydd ansawdd 'gweithio mewn partneriaeth' (3.3) pob adroddiad.

16 Yn yr un modd, ar gyfer ysgolion sydd â'r un pennaeth (gyda chydweithio â'r corff llywodraethol neu hebddo), bydd Estyn yn arolygu pob ysgol ar wahân ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol. Adroddir am effeithiolrwydd cydweithio o dan ddangosydd ansawdd 'gweithio mewn partneriaeth' pob adroddiad.

Ysgolion ffederal

17 Mae'r trefniadau i gyrff llywodraethol greu ffederasiynau wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010.

18 Mae gan ysgolion ffederal un corff llywodraethol. Gall pob ffederasiwn gynnwys rhwng dwy a phump o ysgolion. Gall ysgolion ffederal gynnwys ysgolion o fathau gwahanol, fel ysgolion cynradd neu uwchradd a gynhelir, ysgolion a reolir yn wirfoddol neu ysgolion arbennig a gynhelir. Gallai'r ysgolion fod mewn awdurdodau lleol gwahanol.

19 Caiff y trefniadau hyn eu hadnabod weithiau fel 'ffederasiynau corff llywodraethol' neu 'ffederasiynau cadarn'.

20 Er eu bod wedi'u ffedereiddio'n gyfreithlon, mae'r ysgolion hyn yn parhau i fod yn endidau cyfreithiol ar wahân, a phob un yn cadw ei rhif cyfeirnod ysgol Llywodraeth Cymru ei hun. Ar gyfer ysgolion ffederal, bydd Estyn yn arolygu pob ysgol ar wahân ac yn llunio adroddiad ar wahân ar bob ysgol. Bydd y barnau a'r argymhellion ym mhob adroddiad arolygu yn adlewyrchu safonau, darpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ym mhob ysgol benodol.

21 Ni all Estyn symud arolygiad o ysgol yn hwyrach na chwe blynedd ers ei harolygiad diwethaf, ond byddai'n ystyried ceisiadau i arolygu ysgol yn gynnar (i bob pwrpas, i symud yr arolygiad o'r ysgol i gyfnod cynharach yn y cylch chwe blynedd). Gallai Estyn wneud hyn mewn ffordd sy'n golygu y bydd yr ysgolion sy'n creu'r ffederasiwn yn cael eu harolygu yn yr un tymor. Bydd Estyn yn ystyried gwneud hyn os yw'n credu ei fod yn briodol, yn enwedig pan fydd gan yr ysgolion ffederal yr un pennaeth. Bydd Estyn hefyd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i geisiadau gan ysgolion ffederal i gael eu harolygu yn ystod yr un tymor. Yn y naill achos neu'r llall, bydd Estyn yn ceisio sicrhau bod aelodaeth orgyffyrddol gan y timau arolygu ar gyfer yr ysgolion sy'n creu'r ffederasiwn.

22 Pan fydd ysgol ychwanegol yn ymuno â ffederasiwn presennol, bydd Estyn yn ystyried pryd y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf cyn penderfynu p'un a ddylid arolygu'r ysgol chwe blynedd ar ôl ei harolygiad diwethaf neu'n gynharach.

Amgylchiadau cymhleth neu annisgwyl

23 Mewn sefyllfaoedd eraill, er enghraifft sefydlu ysgol ag ystod oedran 3-18 oed, bydd Estyn yn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o arolygu pob ysgol. Wrth benderfynu amseriad, natur a chwmpas yr arolygiadau, bydd Estyn yn ystyried yr amgylchiadau unigryw y mae pob ysgol yn gweithredu ynddynt ac yn rhoi ystyriaeth briodol i ffactorau fel y model arweinyddiaeth - p'un a oes pennaeth ar gyfer pob ysgol unigol neu bennaeth sydd â chyfrifoldeb am fwy nag un o'r ysgolion dan sylw - a'r mathau o ysgolion sy'n cymryd rhan fel ysgolion a gynhelir, ysgolion a reolir yn wirfoddol, ysgolion unigol neu aml-safle, ac ati.

Arolygiadau a gynhelir o dan gontract

24 Disgwylir y bydd llawer o'r cynllunio ar gyfer arolygiadau ysgol, sy'n ymgorffori trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion newydd, ysgolion sy'n cydweithio ac ysgolion ffederal, wedi digwydd cyn dyfarnu contractau arolygu ysgolion.

25 Pan fydd arolygiad yn cael ei gynnal gan gontractwr arolygu ysgolion a bod y contractwr yn cael gwybodaeth yn ymwneud ag ysgolion yn cydweithio neu ysgolion ffederal, rhaid i'r contractwr roi'r wybodaeth hon i Estyn. Bydd Estyn yn penderfynu ar y ffordd orau o weithredu.

Canslo, oedi ac ail-drefnu arolygiadau ysgol

26 Mae nifer gyfyngedig o sefyllfaoedd lle na ddylai arolygiad arfaethedig fynd yn ei flaen. Mae'r protocol hwn yn nodi ymagwedd Estyn at ganslo, oedi ac ail-drefnu ysgolion a arolygir o dan adran 28 Deddf Addysg 2005.

27 Yn unol â Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, mae'n rhaid i arolygiad adran 28 gael ei gwblhau o fewn cyfnod o bythefnos i ddyddiad dechrau'r arolygiad. Felly nid yw penderfyniadau i symud dyddiad dechrau neu ddyddiad gorffen arolygiad o fewn pum diwrnod gwaith yn gyfystyr â chanslo, oedi neu ail-drefnu arolygiad ysgol.

28 Mae'r amgylchiadau canlynol yn enghreifftiau lle y gallai Estyn benderfynu symud dyddiad dechrau neu ddyddiad gorffen arolygiad o fewn pum diwrnod gwaith. Mae'r ysgol ar gau i'r holl ddisgyblion, neu ni fydd o leiaf tri chwarter y disgyblion yn yr ysgol, er enghraifft, oherwydd amodau tywydd difrifol, taith ysgol neu ŵyl grefyddol, neu oherwydd gweithredu diwydiannol.

29 Mae Estyn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

- **Canslo:** os disgwylir i ysgol gau a bod Estyn yn cytuno na ddylai'r arolygiad fynd yn ei flaen. Mae'n bosibl y gallai/na allai'r ysgol fod wedi cael gwybod am yr arolygiad.
- **Oedi:** lle, yn dilyn hysbysu'r ysgol am ddyddiad yr arolygiad, y bydd Estyn yn cytuno i symud dyddiad dechrau'r arolygiad gan fwy na phum diwrnod gwaith.
- **Ail-drefnu:** lle bo'r arolygiad wedi'i drefnu gan Estyn, **nid** yw'r ysgol wedi cael gwybod am ddyddiad yr arolygiad ond yn disgwyl arolygiad a bod yr ysgol yn gofyn iddo gael ei oedi neu gael ei gynnal/peidio â chael ei gynnal ar adeg benodol a bod Estyn yn cytuno i symud dyddiad dechrau arfaethedig yr arolygiad gan fwy na phum diwrnod gwaith.

30 Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol yn gwneud argymhelliad i'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol a Phrif Arolygydd ei Mawrhydi o ran penderfyniadau y dylai arolygiad gael ei ganslo, ei oedi neu ei ail-drefnu.

31 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu ysgolion o fewn chwe blynedd, ac os yw disgyblion yn derbyn eu haddysg mewn unrhyw ysgol ar adeg lle y disgwylir cynnal arolygiad, yna mae'n bolisi gennym barhau'n unol â'r cynllun, oni bai bod yr amgylchiadau canlynol yn gymwys.

Canslo

32 Disgwylir i'r ysgol gau ac, yn unol ag adran 5 Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd ei Mawrhydi wedi penderfynu, wedi ystyried y dyddiad y caiff yr ysgol ei chau, na fyddai unrhyw ddiben i arolygu'r ysgol.

33 Bydd Prif Arolygydd ei Mawrhydi fel arfer yn penderfynu canslo arolygiad lle rydym wedi cael hysbysiad swyddogol am gau ysgol yn barhaol gan Lywodraeth Cymru

(LIC) sy'n cadarnhau y disgwylir cau'r ysgol. Sylwer y gallai fod angen i PAEM ganslo arolygiad ar achlysuron lle bo ysgol yn cau'n answyddogol, er enghraifft, oherwydd niferoedd isel ar y gofrestr.

34 Bydd PAEM ond yn canslo arolygiad fel arfer, os yw'r arolygiad yn ystod yr un tymor neu'r tymor yn union cyn y disgwylir cau'r ysgol yn barhaol. Er enghraifft, os disgwylir i ysgol gau ar ddiwedd tymor yr haf ym mis Gorffennaf neu ar ddiwedd cyfnod gwyliau'r haf ar ddiwedd mis Awst, yna caiff unrhyw arolygiad y disgwylir ei gynnal ar gyfer tymor yr haf ei hun ei ganslo. Os disgwylir cau ysgol ar gyfer tymor yr haf ac y caiff yr arolygiad ei drefnu ar gyfer tymor y gwanwyn blaenorol yna caiff yr arolygiad ei ganslo.

Oedi neu ail-drefnu

35 Bydd Estyn yn ystyried oedi neu ail-drefnu arolygiadau fesul achos. Caiff y set ganlynol o enghreifftiau eu defnyddio gan Estyn fel canllaw lle y dylid oedi neu ail-drefnu arolygiad fel arfer:

- Mae'r ysgol wedi profi digwyddiad difrifol yn ddiweddar, fel damwain angheuol i ddisgybl neu aelod o staff;
- Mae PAEM yn cytuno bod yr arolygiad yn debygol o amharu'n sylweddol ar y ddarpariaeth addysg neu beri pryder i lawer o ddisgyblion yn yr ysgol;
- Mae'r pennaeth neu'r awdurdod priodol neu aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol yn destun ymchwiliad gan yr heddlu a gâi ei beryglu gan arolygiad o'r ysgol; neu
- Mae amgylchiadau eithriadol eraill, ym marn Estyn, sydd fel arfer yn cyfiawnhau oedi neu ail-drefnu'r arolygiad. Er enghraifft, ail-drefnu arolygiad lle na ellir dyfarnu contract mewn tymor arolygu penodol ac na all Estyn arwain yr arolygiad, neu oedi arolygiad lle bo'r Arolygydd Cofnodol yn sâl ar fyr rybudd.

36 Ni dderbynnir ceisiadau i oedi arolygiad arfaethedig ar y sail bod y pennaeth allan o'r ysgol gan fod disgyblion yn yr ysgol yn derbyn addysg o hyd.

37 Ni ddylai gwaith adeiladu fod yn rheswm dros oedi fel arfer os oes disgyblion yn yr ysgol.

38 Yn achos salwch difrifol neu farwolaeth sydyn y pennaeth, bydd Estyn yn arfer ei farn broffesiynol.

Arolygiadau a gynhelir o dan gontract

39 Lle bo arolygiad yn cael ei gynnal gan gontractwr arolygu ysgolion, mae'n rhaid i'r contractwr ddarparu unrhyw wybodaeth ar gyfer Estyn sy'n ymwneud â chais i symud dyddiad dechrau'r arolygiad o fewn pum diwrnod gwaith neu gais i ganslo, oedi neu ail-drefnu arolygiad. Bydd Estyn yn penderfynu a yw'r cais yn briodol.

40 Lle bo Estyn yn cytuno y dylid symud dyddiad dechrau arolygiad o fewn pum diwrnod gwaith, bydd y contractwr arolygu ysgolion perthnasol yn gyfrifol am roi'r dyddiad dechrau newydd i'r ysgol.

41 Bydd contractwyr arolygu ysgolion yn cadw contractau ar gyfer arolygiadau y cânt eu hoedi neu eu hail-drefnu a byddant yn gyfrifol dros roi'r cyfnod rhybudd o bedair wythnos ar gyfer y dyddiad arolygu newydd i'r ysgol.

42 Bydd arolygwyr dan gontract (ar gyfer arolygiadau a arweinir yn Estyn) yn cadw'r contract ar gyfer arolygiadau a gânt eu hoedi neu eu hail-drefnu a chânt wybod am y dyddiad arolygu newydd. Lle na all yr arolygydd dan gontract barhau â'r contract, caiff ei gynnig i'r tendr llwyddiannus nesaf ar gyfer yr arolygiad hwnnw neu ei ail-dendro os bydd angen.

43 Lle bydd Estyn yn penderfynu canslo arolygiad, daw'r contract(au) arolygu perthnasol i ben. Gallai hyn fod yn berthnasol yn achos contractau unigol ag arolygwyr dan gontract ar gyfer arolygiadau a arweinir gan Estyn neu gontractau sydd gan Estyn gyda chontractwyr arolygu ysgolion.

44 Caiff manylion am ddod â chontractau i ben eu hesbonio'n llawn yn nhelerau ac amodau perthnasol contractau ac maent ar gael ar wefan Estyn.

Trefniadau dilynol ar gyfer cau ysgolion

45 Mae'r adran hon yn ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol i drefniadau arolygu dilynol pan ddisgwylir y bydd ysgol yn cau neu'n cael ei huno ag ysgol arall; hynny yw, pan roddwyd yr ysgol berthnasol mewn categori yn dilyn ei harolygiad adran 28 blaenorol.

Ysgolion sy'n cael eu monitro gan yr awdurdod lleol

46 Ar gyfer ysgolion sy'n cael eu monitro gan yr awdurdod lleol, ni fydd Estyn yn disgwyl adroddiad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol os yw'r ysgol yn cau cyn pen blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Ysgolion y mae angen iddynt gael ymweliadau gan Estyn

47 Os oes disgwyl y bydd ysgol y mae angen iddi gael ymweliadau gan Estyn yn cau, bydd Estyn yn dilyn y gweithdrefnau arferol a bydd yr ymweliadau monitro yn mynd yn eu blaen yn unol â'r bwriad, hyd nes y bydd yr ysgol yn cau.

48 Os bydd ysgol y mae angen iddi gael ymweliadau gan Estyn, yn enwedig ymweliadau mesurau arbennig, ar fin cau a bod nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng, bydd yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer ymweliadau yn ystod y ddau dymor olaf y bydd yr ysgol yn agored, yn gymesur ac yn rhoi ystyriaeth i nifer y disgyblion sy'n weddill.

Ysgolion sy'n cael eu monitro gan Estyn

49 Os bydd ysgol sy'n cael ei monitro wedi cau yn sgil cynlluniau i ad-drefnu neu uno un ysgol neu fwy, sy'n arwain at agor ysgol newydd, bydd AEM yn adolygu'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr ysgol a gaewyd tua blwyddyn i ddeunaw mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

50 Ar sail deilliannau'r gweithgarwch adolygu hwnnw, bydd arolygwyr yn penderfynu p'un a oes angen gweithgarwch dilynol pellach ar yr ysgol newydd. Byddai hyn yn cael ei esbonio i'r ysgol yn ysgrifenedig. Os yw Estyn yn barnu bod angen rhoi'r ysgol newydd mewn unrhyw lefel o weithgarwch dilynol, dilynir y gweithdrefnau arferol ar gyfer y lefel honno o weithgarwch dilynol.

51 Fodd bynnag, pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu yn sgil cau ac wedyn ailagor ysgol iau a'r ysgol fabanod gan ei bwydo fel ysgol gynradd ddilyniannol newydd 'wedi'i huno', byddai Estyn fel arfer yn arolygu'r ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar o fewn 12 i 18 mis o'i hagor (yn unol â pharagraff 12 yr arweiniad hwn). Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd Estyn yn cynnal adolygiad ychwanegol o gynnydd yr ysgol, ond bydd fel arfer yn cynnal yr arolygiad o'r ysgol newydd o fewn 12 mis.

Ysgolion yn y categori gwelliant sylweddol

52 Os yw ysgol yn y categori gwelliant sylweddol wedi cau yn sgil ad-drefnu neu uno un ysgol neu fwy, gan arwain at agor ysgol newydd (yn cynnwys uno ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo), bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol newydd tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi adroddiad yr ysgol a gaewyd.

53 Ar sail deilliannau'r ymweliad hwnnw, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn penderfynu p'un a oes angen rhoi'r ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol. Bydd hyn yn cael ei esbonio i'r ysgol yn y llythyr yn ei hysbysu am yr ymweliad. Os yw Estyn yn barnu bod angen rhoi'r ysgol newydd mewn unrhyw lefel o weithgarwch dilynol, dilynir y gweithdrefnau arferol ar gyfer lefel y gweithgarwch dilynol.

Ysgolion yn y categori mesurau arbennig

54 Os yw ysgol yn y categori mesurau arbennig wedi cau yn sgil cynlluniau i ad-drefnu neu uno un ysgol neu fwy, gan arwain at agor ysgol newydd (yn cynnwys uno ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo), bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol newydd yn ystod y tymor cyntaf ar ôl iddi agor. Ar sail deilliannau'r ymweliad hwnnw, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn penderfynu p'un a oes angen rhoi'r ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol. Bydd hyn yn cael ei esbonio i'r ysgol yn y llythyr yn ei hysbysu am yr ymweliad. Os yw Estyn yn barnu bod angen rhoi'r ysgol newydd mewn unrhyw lefel o weithgarwch dilynol, dilynir y gweithdrefnau arferol ar gyfer y lefel honno o weithgarwch dilynol.

Sefyllfaoedd eraill lle mae angen i ysgolion gael eu monitro ymhellach

55 Bydd Estyn hefyd yn ymweld â'r ysgol newydd pan oedd angen monitro un neu fwy o'r ysgolion gwreiddiol ymhellach ar ôl yr ymweliad monitro cychwynnol. Dyma'r graddfeydd amser ar gyfer trefnu ymweliad â'r ysgol newydd:

- pan fydd ysgol wedi symud i'r categori i gael ei monitro gan Estyn o gael ei monitro gan yr awdurdod lleol, bydd Estyn fel arfer yn adolygu cynnydd yr ysgol o fewn chwe mis o'i nodi;
- pan fydd ysgol wedi symud i'r categori gwelliant sylweddol o gael ei monitro gan Estyn, bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol newydd tua blwyddyn ar ôl yr ymweliad monitro cyntaf;

- pan fydd ysgol wedi symud i'r categori mesurau arbennig o gael ei monitro gan Estyn, bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol newydd tua thymor ar ôl yr ymweliad monitro cyntaf; a
- phan fydd ysgol yn parhau i fod yn y categori gwelliant sylweddol am chwe mis arall, bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol newydd tua chwe mis ar ôl yr ymweliad monitro cyntaf.

56 Ar sail deilliannau'r adolygiad neu'r ymweliad, bydd arolygwyr yn penderfynu p'un a oes angen rhoi'r ysgol newydd yn y categori gweithgarwch dilynol. Byddai hyn yn cael ei esbonio i'r ysgol yn ysgrifenedig. Os yw Estyn yn barnu bod angen rhoi'r ysgol mewn unrhyw lefel o weithgarwch dilynol, dilynir y gweithdrefnau arferol ar gyfer y lefel honno o weithgarwch dilynol.

Cyfeiriadau

a) **Rheoliadau Cydweithio Rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008.**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/168/contents/made/welsh

b) **Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/3082/contents/made/welsh

c) **Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/638/contents/made/welsh